

Mae EPS wedi tyfu'n sylweddol ers iddo gael ei sefydlu'n 2002 gan Dr Rosanna Duncan. Ers y dechrau, mae EPS wedi gweithio gyda nifer o gleientiaid proffil uchel a chaiff ei weld yn arbenigwr ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Wrth ddatblygu EPS i'r dyfodol, rydym ni'n falch i gyhoeddi taw EPS yw'r sefydliad cyntaf yng Nghymru a'r unig un sydd wedi'i drwyddedu i archwilio a chyflenwi Safon Committed 2 Equality.

Cymdeithion EPS: Mae holl gymdeithion EPS yn gymwys i lefel uchel ac mae ganddynt brofiad helaeth yn gweithio gyda'r naill ochr a'r llall mewn sefydliad – cyflogaeth a busnes – tra'n codi ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth ac arfer gorau ym maes cydraddoldeb. Maen nhw'n gallu addasu arddull ac amseru eu gwaith i gwrdd ag anghenion eu cleient ac maen nhw i gyd â'u ffocws nhw ar ganlyniadau.

Mae gan y cymdeithion brofiad helaeth ymhob sector busnes a diwydiant a bydd EPS yn ceisio cydweddu eu profiad nhw gyda busnes neu ddiwydiant y cleient.

Gall EPS ddarparu datrysiadau pwrpasol i helpu busnesau i gyflawni eu goliau cyflogaeth a busnes mewn modd effeithiol ac effeithlon. Mae gwasanaethau EPS yn cynnwys:

Ymchwil a Gwerthuso:

Ymchwil Gweithlu - Datblygu Busnes - Arolygon Boddhad Cwsmer / Cleient - Gwerthuso Prosiect – Dadansoddi Marchnad Lafur

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Cyflog Cyfartal - Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb - Datblygu Polisiâu a Gweithdrefnau - Hyfforddiant ar Ddeddfwriaeth ac Arfer Gorau - Ymchwilio i Wahaniaethu, Aflonyddu a Bwlio

Cyngor ar Gaffael:

Dangos Cydraddoldeb a Darparu Tystiolaeth Ategol yn y Broses Dendro - Monitro Polisiâu Gweithdrefnau sy'n Cydymffurfio

Archwilio:

Systemau Rheoli Adnoddau Dynol - Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Cyflogaeth ac wrth Ddarparu Gwasanaeth - Hyfforddi a Datblygu'r Sylfaen Sgiliau - Cyflog Cyfartal ac Amrywiaeth wrth Gamu Ymlaen Mewn Gyrfa - Trosiant Staff - Disgyblu ac Anghydfod

Cefnogaeth Rheoli Adnoddau Dynol:

Deddfwriaeth Cyflogaeth ac Arfer Gorau – Contractau Gwaith – Technegau a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol – Gwerthuso Perfformiad – Hyfforddi a Datblygu – Rheoli Perfformiad – Rheoli Absenoldeb – Disgyblu ac Anghydfod – Newid Sefydliadol

Hyfforddi ac Ymgynghori:

Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant - Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb – Deddfwriaeth Cyflogaeth – Recriwtio a Dethol, Disgrifiadau Swydd a Manylebau'r Person – Contractau Gwaith – Disgyblu ac Anghydfod – Gwerthuso Perfformiad

Beth yw COMMITTED TO EQUALITY?

Rhaglen Achredu Sicrhau Amrywiaeth a gydnabyddir yn genedlaethol a'i ardystio gan Sfeddi yw C2E sy'n helpu sefydliadau i ddatblygu a gwella'u ffordd o weithio o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i ddangos eu bod nhw'n gallu cwrdd ag anghenion cleientiaid sector cyhoeddus a deddfwriaeth gydraddoldeb bresennol. Corff di-elw, gaiff ei gydnabod gan lywodraeth, sy'n gosod safonau ar gyfer menter busnes a chymorth busnes yw Sfeddi.

Beth yw manteision ennill Achrediad C2E?

O ran eich busnes neu gwmni, gallai nod barcud Safon Amrywiaeth C2E arwain at:

- gydnabyddiaeth gyhoeddus yn sefydliad o ansawdd
- gwell ysbryd ymhlith staff ac ethos cwmni cadarnhaol
- dod yn gyflogwr a ffefrir a chyflenwr delfrydol
- helpu eich cwmni neu fusnes i gofrestru ac i barhau ar y Gofrestr Cydraddoldeb Cenedlaethol
- mwy o lwyddiant wrth ennill tendrau sector cyhoeddus gan gynnwys Y GIG ac awdurdodau lleol gan y bydd eich sefydliad yn gallu dangos eich bod chi'n cwrdd â chydymffurfiaeth allweddol yn unol â Deddf Cydraddoldeb Sengl 2010

Sut allwn ni ennill Achrediad C2E?

Mae ennill achrediad yn syml ac fe'ch cefnogir gan ymgynghorwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth arbenigol i adnabod pa bolisïau a gweithdrefnau sydd gennych chi ar hyn o bryd ac unrhyw feysydd sydd angen datblygu pellach. Fodd bynnag, bydd gan rai cwmnïau bopeth yn ei le eisoes sydd ei angen er mwyn cyrraedd y safon heb fod angen dim ond ychydig neu hyd yn oed ddim cymorth pellach cyn yr archwiliad C2E.

Bydd eich ymgynghorydd yn eich helpu chi i gwblhau'r holiadur cyn-asesu ac yn darparu hyfforddiant ac arweiniad rhyngweithiol lle bo angen ac yn rhoi adborth ar eich cynnydd. Os bydd angen, bydd EPS yn darparu hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i'r rhai sy'n gyfrifol am hyrwyddo eich fframwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae cofrestru ar y Gofrestr Cydraddoldeb Cenedlaethol yn dangos i swyddogion caffael a chyflenwyr fod eich polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewnol wedi'u harchwilio'n drylwyr a bod eich sefydliad chi'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac yn darparu arfer gorau.

Dylai'r broses achredu gymryd tua 8-12 wythnos ac ar ôl hynny bydd eich manylion yn cael eu hychwanegu i'r Gofrestr Cydraddoldeb Cenedlaethol a byddwch chi'n derbyn tystysgrif ac yn gallu defnyddio logo C2E ar eich gwefan ac yn eich deunydd.

Pa feysydd allweddol mae'r broses achredu C2E yn ymdrin â nhw?

Polisi Cydraddoldeb & Amrywiaeth

Caiff eich polisi ei asesu gan ystyried ei ymrwymiad, ei hygyrchedd a sut y caiff ei gyfathrebu i weithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr

Hyfforddi & Datblygu

Caiff y ddarpariaeth bresennol ar gyfer hyfforddi a datblygu o ran meysydd allweddol cydraddoldeb ac amrywiaeth ei hadolygu

Recriwtio & Dethol

Byddwn ni'n gwerthuso eich prosesau er mwyn sicrhau fod eich sefydliad neu'r asiantaeth recriwtio a ddefnyddir yn hysbysebu'n agored eich bod chi'n ymrwymo i Gydraddoldeb & Amrywiaeth a bod y dulliau a ddefnyddir ar gyfer dethol yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac arfer da

Cytundebau Cyflogaeth

Adolygir eich cytundebau cyflogaeth er mwyn sicrhau fod pecynnau tâl a buddion eich sefydliad yn deg

Disgyblu & Chwynion

Byddwn ni'n edrych ar eich trefniadau rheoli anghydfod yn y gweithle ac yn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol

Amrywiaeth yn y Gweithlu

Byddwn ni'n adolygu proffil eich staff ac yn darparu cyngor ar amrywiaeth yn y gweithle ac ehangu cronfa'r ymgeiswyr posibl

Monitro Amrywiaeth

Byddwn ni'n gwerthuso sut ydych chi'n monitro gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr cyfredol ac i'r dyfodol ac effeithiolrwydd cyffredinol y monitro o fewn eich sefydliad

Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy'r gadwyn gyflenwi


Byddwn ni'n asesu sut ydych chi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg eich cwsmeriaid a chyflenwyr ac yn adolygu eich gweithdrefn gwyno

Gweithgaredd Cymunedol

Byddwn ni'n darparu adborth ar sut i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y gymuned ehangach er mwyn codi'ch proffil chi ac yn adolygu unrhyw drefniadau sydd gennych chi

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Byddwn ni'n asesu eich proses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb mewnol er mwyn sicrhau y caiff hyn ei wneud yn flynyddol a bod ei ymrwymiad yn cael ei gyflawni heb fod yna unrhyw effaith niweidiol o ran cenhadaeth, bwriad neu weithredoedd eich sefydliad.



CWESTIYNAU CYFFREDIN

Alla i ddod i chi am gyngor os oes gen i ymholiad rhwng yr asesiad cychwynnol a'r archwiliad?

Wrth gwrs, gan taw ein nod yw darparu'r holl gymorth sydd ei angen arnoch chi i gael eich hachredu'n llwyddiannus. Os bydd angen hyfforddiant neu waith datblygu ychwanegol arnoch chi, efallai y bydd cost ychwanegol am hyn a fyddai'n cael ei gytuno gyda'ch sefydliad chi. Fodd bynnag, trwy C2E ac EPS, bydd gennych chi fynediad am ddim i ystod o dempledi ac adnoddau defnyddiol.

Pa mor hir fydd yr archwiliad yn ei gymryd?

Unwaith y bydd yr asesydd yn eich gweithle, ni ddylai'r archwiliad gymryd mwy na hanner diwrnod.

Beth fydd y gost?

Ar hyn o bryd, mae gennym ni gynnig rhagarweiniol sy'n £950 + TAW. Mae'r gost yn cynnwys cymorth i gwblhau'r holiadur adolygu hunanasesiad cychwynnol, cefnogaeth dros y ffôn, cost yr archwiliad a'r ffi achrediad C2E. Mae'r cynnig hwn ar gael tan Awst 31 2011 yn unig.

Pa mor gyfrinachol yw'r broses?

Mae pawb sy'n rhan o'r broses achredu yn dilyn ymddygiad proffesiynol sy'n cynnwys cynnal cyfrinachedd cleientiaid bob amser.

A fydd holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydnabod y safon?

Bydd, mae'n safon gaiff ei gydnabod gan y llywodraeth a'i ardystio gan SFEDI ac a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig. Yn ddiweddar, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), mae EPS wedi cymryd pob un o ddarparwyr Cymorth Busnes Cymru, gan gynnwys Venture Wales, Business in Focus a'r Ganolfan ar gyfer Busnes drwy'r broses C2E. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach wedi gwneud cyrraedd safon cydraddoldeb megis C2E yn rhan o'r meini prawf yn eu tendr diweddar ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth busnes yng Nghymru.

Beth os nad ydw i'n cyrraedd safon yr achrediad?

Mae'n annhebygol iawn na fyddwch chi'n cyflawni achrediad os ydych chi'n barod i weithio gyda'r ymgynghorydd a benodwyd i weithio gyda chi a dilyn eu cyngor nhw. Mae'n rhaid i chi fod yn ymrwymedig i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac i ddarparu gwasanaeth teg a diduedd i'ch cleientiaid.

A all EPS fy nghefnogi mewn meysydd eraill yn fy sefydliad?

Gallwn - rydym ni'n cynnig ystod eang o atebion pwrpasol o dan ein ymbarél amrywiol ac rydym ni'n gallu rhannu ein harbenigedd ymhob sector busnes a diwydiant.

Pa mor gyflym alla i ddechrau arni?

Gallwn drefnu i ymgynghorydd cydraddoldeb ac amrywiaeth i gysylltu â chi ar unwaith a threfnu apwyntiad addas i drafod gofynion eich sefydliad.

Deddf Cydraddoldeb Sengl 2010

Y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl yw'r darn mwyaf o ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn 40 mlynedd. Ei nod yw tacluso'r gyfraith, ei gwneud yn gyson drwyddi draw a'i gwneud yn fwy hygyrch. Bydd gan y Ddeddf effaith arwyddocaol ar sefydliadau sy'n cyflenwi'r sector cyhoeddus a'r rheiny sy'n tendro am gytundebau sector cyhoeddus. Dan y Ddeddf, mae yna Ddyletswydd Cydraddoldeb penodol sy'n berthnasol i bob caffael a chomisiynu gan gyrff cyhoeddus e.e. Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r GIG.

Yn y bôn, mae hyn yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus sicrhau wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, waeth beth yw gwerth y contract, bod y cwmnïau y maent yn eu cyflogi yn rhoi sylw priodol i'r angen i: ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol.

Beth mae hyn yn ei olygu i gwmnïau sydd am wneud busnes gyda'r sector cyhoeddus?

Fel cyflenwr i Gorff Cyhoeddus byddai'n rhaid i chi gael tystiolaeth bod eich arferion cydraddoldeb yn cwrdd â gofynion yr awdurdod contractio a'u bod yn unol â'ch dyletswydd gyfreithiol. Wrth i'n cymdeithas ddod yn fwyfwy amrywiol, mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon yn y gwasanaethau maent yn eu cynnig ac yn y modd caiff arian cyhoeddus ei wario. Mae cyrff cyhoeddus yn gwario tua £220 biliwn y flwyddyn ar wasanaethau sy'n rhoi 'Pŵer Prynu' anferth iddyn nhw. Bydd y pŵer prynu hwn yn cael ei ddefnyddio i yrru cydraddoldeb a bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar eich busnes. Wrth ddyfarnu cytundebau i'r dyfodol, bydd y sector cyhoeddus yn gorfod cymryd cydraddoldeb ac amrywiaeth i ystyriaeth. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad ydych chi'n cyflenwi'r sector cyhoeddus, bydd gennych chi dal rwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth i weithwyr a chwsmeriaid y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Sut fydd hyn yn effeithio ar eich sefydliad?

Efallai y byddwch chi'n destun gwiriadau a chraffu ychwanegol a bydd rhaid i chi fodloni gofynion penodol. Fel cyflenwr neu is-contractwr bydd yn rhaid i chi gael tystiolaeth benodol o gydymffurfio sy'n dangos bod eich polisiau a gweithdrefnau cydraddoldeb mewnol yn bodloni safonau'r sector cyhoeddus a deddfwriaeth. Os nad ydych yn gallu cyrraedd y safonau gofynnol, gallai hyn effeithio arnoch o ran ennill contractau newydd neu contractau pellach gyda sefydliadau sector cyhoeddus.

Beth ddylech chi ei wneud?

Gwiriwch eich polisiau, gweithdrefnau ac arferion cyfredol, i benderfynu a ydych chi'n cydymffurfio, oherwydd yn ystod y broses gaffael efallai y bydd eich polisiau ac arferion yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn bodloni cyfraith cydraddoldeb bresennol a gofynion y sector cyhoeddus.

Sut allwn ni helpu?

Gall EPS roi cefnogaeth lwyr i'ch sefydliad a neilltuo ymgynghorydd cydraddoldeb & amrywiaeth i chi, fydd yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich fframwaith mewnol a gwella eich polisiau a gweithdrefnau presennol i sicrhau eich bod yn bodloni disgwyliadau'r sector cyhoeddus ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Byddwch yn derbyn hyfforddiant ac adborth rhyngweithiol ar eich cynnydd tuag at eich achredu. Unwaith y byddwch wedi cyflawni achrediad cenedlaethol nod barcud C2E, caiff eich manylion eu rhoi ar y Gofrestr Cydraddoldeb Cenedlaethol fydd yn dangos i gyflenwyr a chaffaelwyr eich bod wedi cael eich harchwilio'n drwyadl a bod eich sefydliad yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a'ch bod chi'n falch o allu gweithredu arfer gorau a bod yn gyflogwr a chyflenwr delfrydol.

Cleientiaid sydd wedi cyrraedd safon C2E

Tystebau gan sefydliadau sydd eisoes wedi ennill achrediad C2E gydag EPS a chefnogaeth Llywodraeth Cymru:

“Darparodd Rosanna a’r tîm yn EPS wasanaeth amhrisiadwy yn ein cynnydd tuag at, a’n llwyddiant y pen draw, i ennill yr achrediad. O ran ein sefydliad ni, y budd gwirioneddol o weithio gyda EPS oedd y mentora a gawsom oedd yn ein galluogi i weithredu arfer da ac adeiladu ein strategaeth gorfforaethol. Mae gennym bellach ganlyniadau cadarnhaol sy’n profi bod cydraddoldeb yn cyfrannu nid yn unig i les staff a chleientiaid ond hefyd i broffidioldeb cyffredinol ein sefydliad.”

Julie Dubberley, Rheolwr Gwasanaeth Busnes Annog Cyf

“Mae’r Ganolfan ar gyfer Busnes yn gweithredu nifer fawr o wasanaethau cleientiaid o gyngor busnes, i NVQs, i ddarparu eiddo. Mae portffolio mawr o wasanaethau yn golygu bod yn rhaid i ni gael dull cyffredin o sicrhau bod ein holl gleientiaid a chwsmeriaid yn cael eu trin yn deg, a bod eu gwahaniaethau unigol yn cael eu parchu a’u gwerthfawrogi. Er bod llawer o’n darpariaeth busnes eisoes yn cynnwys ymagwedd gydraddoldeb ac amrywiaeth, mae C2E wedi ein galluogi i ffurfioli’r ymagwedd honno a rhoi mwy o ffocws ar y cleient a’n gwneud ni’n fwy abl i ddiwallu eu hanghenion, tra’n archwilio ein sefydliad ni er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer pob gweithiwr, rhanddeiliad a phartner.”

Jon Hughes, Rheolwr Mentergarwch Y Ganolfan ar gyfer Busnes, Casnewydd

“Cwmni Hyfforddi a Datblygu yw THE Group sy’n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys Cefnogaeth Dechrau Busnes, NVQs a chysiau Arweinyddiaeth & Rheolaeth achrededig gan ILM. Mae’r cwmni bob amser wedi rhoi ffocws clir ar y cleient ac wedi gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth ar bob adeg. Gyda’r gefnogaeth a gynigiwyd, rydym wedi gallu diweddarau ein holl bolisiau a gweithdrefnau yn ogystal â systemau mewnol y sefydliad, gan gwrdd â Safonau C2E sy’n sicrhau ein bod ni’n cynnig gwasanaeth cynhwysol i bob un o’n cwsmeriaid, gweithwyr a chontractwyr.

Mae’r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Rosanna a’r holl dîm yn EPS ynghyd â’r cymorth gan Llywodraeth Cymru i weithredu a chynnal yr arfer da hwn wedi bod yn amhrisiadwy. Diolch yn fawr gan bawb yn THE Group am wneud y broses yn ‘ddi-boen!’”

Mandy Jones, Rheolwr Prosiect THE Group Ltd

“Yn ddiweddar, dyfarnwyd achrediad C2E i ni’n PBI; i raddau helaeth, mae’r diolch am hyn i Rosanna Duncan a Helen Bulmer yn EPS. Mae eu cyngor a mentora wedi bod yn rhagorol, ac ar lefel broffesiynol, wybodus, ond cyfeillgar. Mae PBI nawr yn gallu cydweithio tuag at ddarparu fframwaith clir a theg gyda systemau a phrosesau cadarn i ddatblygu a darparu gwasanaeth cynhwysol i bob un o aelodau staff, cleientiaid a rhanddeiliaid PBI a sicrhau arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau ac mewn arferion cyflogaeth.”

Joanna Brindley, Rheolwr Prosiect PBI